



Papur Gwybodaeth Manwl

Diweddariad Credyd Cynhwysol Ionawr 2018

Mae'r diweddariad hwn yn rhoi gwybodaeth a gafwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yng nghyfarfod bwrdd crwn CHC a DWP, cyfarfod Strategol Landlordiaid Sector Rhent Cymdeithasol, a chyfarfod Bwrdd Rhanddeiliaid Cymru DWP.

Dyddiau aros

Cyflwynir dileu'r cyfnod aros 7 diwrnod ym mis Chwefror, fodd bynnag ni chadarnhawyd yr union ddyddiad hyd yma. Disgwylir y bydd hyn rywbryd yng nghanol Chwefror. Ni fydd y cyfnod aros yn weithredol ar gyfer hawliadau newydd a wneir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Rhagdaliadau

Ar ôl 3 Ionawr 2018 gall hawlwy'r newydd a hawlwy'r sy'n trosglwyddo o fudd-daliadau gwaddol wneud cais am ragdaliad o hyd at 100% *cyfanswm* amcangyfrif misol dyfarniad Credyd Cynhwysol yr aelwyd.

Ar ôl i hawlydd wneud eu cais newydd ar-lein am Gredyd Cynhwysol, mae angen iddynt fynychu cyfweiliad yn eu Canolfan Gwaith leol - mae hyn fel arfer 3-5 diwrnod ar ôl gwneud eu hawliad. Dywedir wrthynt yn y cyfweiliad hwn am ragdaliadau a sut i wneud cais am un. Gellir gwneud cais am ragdaliad yr un diwrnod a chaiff wedyn ei dalu i gyfrif banc yr hawlydd o fewn 72 awr. Gellir talu'r rhagdaliad ynghynt os oes angen dybryd.

Bydd angen i hawlwy'r newydd esbonio i'w hyfforddydd gwaith neu gynghorydd llinell gymorth Credyd Cynhwysol eu bod mewn angen ariannol er mwyn hawlio rhagdaliad. Nid yw'n rhaid i'r rhai sy'n symud o fudd-daliadau gwaddol fod mewn angen ariannol er mwyn hawlio rhagdaliad.

Os cytunir ar y rhagdaliad, bydd yr hyfforddydd gwaith neu gynghorydd llinell gymorth yn esbonio faint y byddant yn ei gael, faint y bydd yn rhaid iddynt ei dalu'n ôl bob mis ac ar ba ddyddiad y mae'r taliad cyntaf yn ddyledus. Caiff y rhagdaliad ei adennill dros gyfnod o hyd at 12 mis a gall hawlwy'r ddewis ei ad-dalu dros gyfnod byrrach. Daw'r ad-daliad cyntaf allan o'r taliad llawn cyntaf. Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft os na all yr hawlydd fforddio'r ad-daliadau neu y bydd yn mynd i ddyled, gellir gohirio ad-daliadau am hyd at dri mis.

Os mai'r penderfyniad yw nad oes gan yr hawlydd hawl i Gredyd Cynhwysol, ar ôl iddynt dderbyn y rhagdaliad, caiff hyn ei drin fel gordaliad a chaiff ei adennill.



Taliad ychwanegol Budd-dal Tai

O 11 Ebrill bydd y rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai cyn gwneud cais am y Credyd Cynhwysol yn derbyn taliad dwy wythnos ychwanegol o fudd-dal tai. *Ni* fydd hyn yn effeithio ar lefel y rhag-daliad y gall person ei hawlio, h.y. gall hawlydd ddal i wneud cais rag-daliad hyd at 100% yn cynnwys eu costau tai.

Os caiff budd-dal tai ei dalu'n uniongyrchol i'r hawlydd, byddant yn derbyn eu taliad budd-dal tai un ai fel credyd yn eu cyfrif rhent neu i'w ddefnyddio ar gyfer costau byw bob dydd tan eu taliad Credyd Cynhwysol cyntaf.

Os caiff budd-dal tai ei dalu'n uniongyrchol i landlordiaid ond fod ganddynt ôl-ddyled, caiff y trosiant i daliad tai y Credyd Cynhwysol ei gredydu i gyfrif rhent yr hawlwr, a bydd hyn naill ai'n gostwng lefel yr ôl-ddyled neu'n ei glirio ac yn rhoi'r cyfrif mewn credyd - os yw mewn credyd, gall yr hawlydd ddewis gostwng swm eu taliad rhent nesaf.

Os caiff budd-dal tai ei dalu'n uniongyrchol i landlordiaid ac nad oes ganddynt ôl-ddyled, mae'r trosiant i daliad tai Credyd Cynhwysol yn rhoi'r cyfrif mewn credyd - gall yr hawlydd wedyn ddewis talu swm is o rent i glirio unhyw falans sydd ar ôl a dychwelyd y cyfrif i falans o ddim.

Newidiadau rhent

Ar gyfer hawlwr **Gwasanaeth Byw**, bydd y broses ar gyfer hysbysu am newid rhent yr un fath â'r llynedd. Bydd y DWP rhoi dyddiad olaf ar gyfer dychwelyd rhestri rhent a byddwch chi a CHC yn derbyn mwy o wybodaeth ar hyn yn yr ychydig wythnosau nesaf. Anfonwch y rhestri rhent beth bynnag os ydych yn yn ansicr p'un ai ar wasanaeth byw neu lawn mae'r hawlwr.

Mae'r DWP yn dal yn y broses o ddatblygu'r system ar gyfer newidiadau rhent mewn ardaloedd **Gwasanaeth Llawn**. Y nod yw i'r hawlydd gael eu hysgogi i hysbysu am y newid rhent o 1 Ebrill. Dim ond os yw tu allan trothwy uchaf ac isaf y bydd hyn yn ysgogi gwiriad rhent a bydd y DWP yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a CHC i benderfynu ar y trothwy hwn yng ngoleuni Polisi Rhent Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/2019.

Rydym wedi sôn wrth y DWP y bydd ein haelodau yn hysbysu tenantiaid am y newidiadau rhent cyn 1 Ebrill ac felly y byddai'n addas pe byddai'r hawlydd yn medru anfon y wybodaeth ar ôl iddynt gael y llythyr gan eu landlord. Byddem yn eich annog i sicrhau fod eich llythyrau rhent yn golygu y bydd y newid yn golygu y bydd angen i'r denant gwblhau cam gweithredu ar eu hawliad Credyd Cynhwysol i hysbysu'r DWP am y newid rhent.



Newidiadau taliadau APA

Fe wnaethom eich hysbysu ddiwedd y llynedd fod y DWP yn ymchwilio dewisiadau talu eraill i wella amllder taliadau i landlordiaid. Y nod yw i landlordiaid ddigwydd yr un pryd â'r taliad i'r hawlydd. Mae hyn yn dal i fod yn yr arfaeth er nad oes unrhyw gynnydd i'w adrodd ar hyn o bryd.

Mudo wedi'i Reoli

Bwriedir dechrau mudo o fudd-daliadau gwaddol i'r Credyd Cynhwysol ym mis Gorffennaf 2019, i'w gwblhau erbyn Mawrth 2022. Amcangyfrifir y caiff 3.7 miliwn o unigolion eu symud i'r Credyd Cynhwysol fel rhan o'r mudo yma, a disgwylir y bydd 46% o'r aelwydydd sy'n mudo yn derbyn budd-dal tai.

Caiff y rhai sy'n symud eu trin fel hawliad Credyd Cynhwysol newydd sbon, fodd bynnag bydd diogelu trosiannol yn ei le fydd yn erydu dros gyfnod.

Caiff mudo wedi'i reoli ei brofi yn Haf 2018 ac mae'r DWP yn gobeithio rhoi 12 mis o rybudd i ardaloedd fydd yn dechrau'r broses hon o fis Gorffennaf 2019.

Statws partner dibynadwy a phorth landlordiaid

Cafodd y gwaith o ymestyn y porth landlordiaid a statws partner dibynadwy ei arafu oherwydd cyhoeddiadau'r gyllideb a defnyddir y cyfnod mis Chwefror i fis Ebrill i ymrestru nifer fach o landlordiaid ac ar yr un pryd adeiladu gwelliannau pwysig a ddynodir gan y landlordiaid hynny sydd eisoes yn gweithredu'r porth.

Nid oes angen i landlordiaid cymdeithasol wneud dim oherwydd, fel yn y cyfnod ymestyn ym mis Hydref i fis Rhagfyr, bydd Rheolwyr Cyfrif yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cysylltu â landlordiaid pan yn briodol i drafod ymrestru partner dibynadwy/porth. Bydd y cyfnod mis Chwefror - mis Ebrill yn cynnwys landlordiaid mewn ardaloedd lle cyflwynwyd gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol eisoes.

Yn nhermau'r gofynion a disgwyliadau a landlordiaid gyda statws partner dibynadwy, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cadarnhau fod hwn yn ddull gweithredu cyffyrddiad ysgafn, ac yr ymddiriedir yn landlordiaid i wneud penderfyniadau p'un ai MPTL yw'r ffordd orau o weithredu bryd hynny.

Tenantiaethau blêr

Daeth i sylw CHC a'r Adran Gwaith a Phensiynau fod landlordiaid yn cael problemau wrth brosesu a rheoli hawliadau ar gyfer tenantiaethau blêr. Ym mwrdd crwn y CHC a'r DWP ym mis Ionawr fe wnaethom roi enghreifftiau ac fe gadarnhaodd yr Adran y dylid trin Rheolwyr Partneriaeth fel y llwybr codi yn y lle cyntaf, lle dylid dilyn 'ymagwedd synnwyr cyffredin'. Rydym wedi cynnwys y manylion cyswllt ar rheolwyr partneriaeth ar y dudalen nesaf.



Os ydych yn cael problemau cyson gyda thenantiaethau blêr, neu os gwyddoch am unrhyw hawliadau nad ydynt yn cael eu datrys er eu codi i'r Rheolwr Partneriaeth, gofynnir i chi gysylltu gyda CHC fel y gallwn ymchwilio'r rhain ymhellach gyda'r DWP Rydym angen astudiaethau achos penodol ac enghreifftiau o'r problemau yr ydych chi a'ch hawlwyd yn eu profi. Cysylltwch gyda Hayley MacNamara yn CHC gyda'ch enghreifftiau erbyn diwedd Chwefror 2018 fel y medrir eu rhoi at ei gilydd a'u rhannu gyda'r DWP.

Digwyddiadau landlord

Mae CHC yng nghamau cyntaf trefnu Digwyddiadau Landlord gyda'r DWP fydd yn rhoi cyfle i'n holl aelodau gwrdd gyda swyddogion yr Adran a thynnu sylw at unrhyw faterion neu bryderon. Er mwyn sicrhau fod y digwyddiadau hyn yn diwallu eich anghenion, byddai'n ddefnyddiol gwybod pa feysydd penodol o'r Credyd Cynhwysol yr hoffech ei drafod gyda swyddogion. Cysylltwch gyda Hayley MacNamara yn CHC gyda'ch awgrymiadau os gwelwch yn dda.

Cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech fwy o fanylion am gynnwys y papur gwybodaeth yma, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Hayley Macnamara yn: hayley-macnamara@chcymru.org.uk



Rheolwyr Partneriaeth Cymru

Awdurdod Lleol	Rheolwr Partneriaeth	Rhif Ffôn	Cyfeiriad E-bost
De Orllewin			
Abertawe	Mark Hurry	01792 494157	MARK.HURRY@DWP.GSI.GOV.UK
Caerfyrddin	Menna Davies Lucy Jewell	01269 815547 01267 323011	MENNA.M.DAVIES@DWP.GSI.GOV.UK LUCY.JEWELL@DWP.GSI.GOV.UK
Castell-nedd Port Talbot	Helen Powell	07500 094803	HELEN.POWELL4@DWP.GSI.GOV.UK
Ceredigion	Brian Isaac Lucy Jewell	01970653155 01267 323011	BRIAN.ISAAC@DWP.GSI.GOV.UK LUCY.JEWELL@DWP.GSI.GOV.UK
Pen-y-bont ar Ogwr	William Jones	07586492743	WILLIAM.JONES1@DWP.GSI.GOV.UK
Rhondda Cynon Taf	Ian Hargreaves	07971 996271	IAN.HARGREAVES2@DWP.GSI.GOV.UK
Sir Benfro	Alyson Phillips	07717 344177	ALYSON.PHILLIPS@DWP.GSI.GOV.UK
De Ddwyrain			
Blaenau Gwent	Richard Aston	0797 1994927	RICHARD.ASTON@DWP.GSI.GOV.UK
Bro Morgannwg	Gaynor Williams	07891 682609	GAYNOR.WILLIAMS@DWP.GSI.GOV.UK
Caerdydd	Sue Harris Gaynor Williams	07826 941589 07891 682609	SUE.HARRIS@DWP.GSI.GOV.UK GAYNOR.WILLIAMS@DWP.GSI.GOV.UK
Caerffili	Ceri Pritchard	0778 6110452	CERI.PRITCHARD@DWP.GSI.GOV.UK
Casnewydd	Sarah Masterton	07909 881921	SARAH.MASTERTON@DWP.GSI.GOV.UK
Merthyr Tudful	Ceri Pritchard	0778 6110452	CERI.PRITCHARD@DWP.GSI.GOV.UK
Sir Fynwy	Sarah Masterton	07909 881921	SARAH.MASTERTON@DWP.GSI.GOV.UK
Torfaen	Richard Aston	07920 783932	RICHARD.ASTON@DWP.GSI.GOV.UK
Gogledd a'r Canolbarth			
Conwy	Susan Roberts	07717347096	SUSAN.ROBERTS10@DWP.GSI.GOV.UK
Dinbych	Katie Goodwin	01745 455917	KATIE.GOODWIN@DWP.GSI.GOV.UK



Fflint	Katie Goodwin	01745 455917	KATIE.GOODWIN@DWP.GSI.GOV.UK
Gwynedd	Eiddwen Borland	01766 465153	EIDDWEN.BORLAND@DWP.GSI.GOV.UK
Powys	Elaine Davies	01874 573052	ELAINE.DAVIES1@DWP.GSI.GOV.UK
Wrecsam	Ann Ledsham	01978 316080	ANN.LEDSHAM@DWP.GSI.GOV.UK
Ynys Môn	Susan Roberts	07717347096	SUSAN.ROBERTS10@DWP.GSI.GOV.UK